Nodiadau o'r

Fforwm ar Gerddoriaeth Traddodiadol

a gynhaliwyd yng Ngaleri , Caernarfon, Gwynedd

24 Tachwedd 2006

cynullwyd gan **Cyngor Celfyddydau Cymru**

gyda **trac: Cerddoriaeth Traddodiadol Cymru**

CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY

trac
folk development for wales
datblygu traddodiadau gwerin

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Cynnwys

tudalen

Rhagair gan y Cadeirydd, Beti George 3

Nodiadau o'r drafodaeth 4
Einion Dafydd, Cyngor Celfyddydau Cymru

Y Celfyddydau Traddodiadol yn yr Alban 8
David Francis, Scottish Traditional Music Forum

Y Celfyddydau Traddodiadol yng Ngogledd Iwerddon 12
Paul Flynn, Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon

Cerddoriaeth Draddodiadol a Cherddoriaeth Werin: ei Natur a'i Feithrin 16
Siân Thomas, trac

Siân Thomas, David Francis, Beti George, a Paul Flynn yn y Fforwm, gyda Einion Dafydd yn y blaendir

Rhagair

Cefais y fraint o gadeirio seminar cerddoriaeth werin yn Galeri, Caernarfon ar Dachwedd 24ain, 2006. Y peth cyntaf â'm trawodd oedd brwdfrydedd y rhai oedd wedi ei mynychu, ond hefyd y gofid oedd i'w deimlo ynglŷn â dyfodol cerddoriaeth werin Cymru.

Roedd cyfraniad y cynrychiolwyr o Ogledd Iwerddon a'r Alban yn agoriad llygad, a theimlais yn eiddigeddus iawn o'u clywed yn sôn am y gefnogaeth a gaent hwy gan eu cyrff cyhoeddus oedd yn cydnabod gwerth diwylliannol ac economaidd eu cerddoriaeth gynhenid. O na bai hynny'n wir am ein cyrff cyhoeddus ni yng Nghymru.

I sicrhau dyfodol ein cerddoriaeth werin mae'n rhaid iddi ddatblygu law yn llaw a gofynion cyfoes. Ond 'dyw hynny ddim yn golygu cefnu ar y gorffennol. Heb wreiddyn does dim byd yn tyfu. Er hynny roedd y seminar yn gytûn ar un peth - bod rhaid denu'r ifanc, ac o glywed am brofiadau'r cynrychiolwyr Celtaidd 'dyw honno ddim yn dasg amhosib.

Oni fyddai hi'n braf meddwl y gallai pawb sy'n gweithio ym maes cerddoriaeth werin yng Nghymru ddod ynghyd *yn gytûn,* er mwyn gwireddu breuddwyd.

Manteisiwn ar boblogrwydd y ffantasïol fel Harry Potter a Lord of the Rings. Dychmygaf weld sioe fawr wedi ei seilio efallai, ar un o chwedlau'r Mabinogi, yn llenwi Canolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd (gan mai hi yw ein prifddinas) am dymor cyfan! Fe fyddai llwyfan anferth y Theatr yn lleoliad delfrydol ar gyfer y doniau lu sydd gennym - yn rapwyr, aelodau Clera, cantorion pop, roc, a jazz, cerdd dantwyr, dawnswyr, ysgolion fel Glanaethwy ac Ysgol Gerdd Ceredigion - pawb yn dathlu'n cerddoriaeth werin a'n diwylliant traddodiadol mewn un "extravagansa" liwgar gyffrous.

Fe achubodd "Riverdance" gerddoriaeth a dawnsio gwerin Iwerddon, beth bynnag yw diffygion y sioe honno. Mae gennym ni gystal os nad gwell i'w gynnig i'r byd. Gyda hyder, a chefnogaeth ein cyrff cyhoeddus fe allai'n cerddoriaeth werin ni ffynnu, a bod yn gyfrwng pwysig i farchnata Cymru er budd diwylliannol ac economaidd.

Beti George
Darlledydd - Newidiadurwraig

Nodiadau o'r drafodaeth

Einion Dafydd, Uwch Swyddog Datblygu'r Celfyddydau (Cerdd) Cyngor Celfyddydau Cymru

Cefndir

Trefnwyd y seminar er mwyn gwyntyllu pynciau o bwys sydd â wnelo â cherddoriaeth werin. Dyma gyfle i drafod gorffennol, presennol ac, yn anad dim arall, ddyfodol y ffurf hon o gerddoriaeth. Menter ar y cyd rhwng trac a CCC oedd y cynulliad hwn a hysbysebwyd ef yn eang ymhlith ymarferwyr, trefnyddion, swyddogion celfyddydol awdurdodau lleol yn ogystal â chynrychiolwyr canolfannau, gwyliau, gwerin, y cyfryngau, ac asiantaeth twristiaeth. Gwahoddwyd Beti George i gadeirio'r seminar oherwydd ei diddordeb mewn cerddoriaeth a welir drwy ei gwaith ar radio a theledu. Roedd hefyd yn gyfle i ddwyn gwybodaeth am faes cerddoriaeth werin i sylw darlledwr profiadol.

Gosodwyd agenda llac ar gyfer y diwrnod i ennyn llif o syniadau ym meddyliau'r mynychwyr cyn dechrau ar y gwaith o drin a thrafod.

Y Traddodiad Llafar

Anodd diffinio unrhyw fath o gerddoriaeth a daethpwyd i gytundeb mai'r hyn sy'n nodwedd unigryw o gerddoriaeth werin yw'r modd y trosglwyddir y deunydd o genhedlaeth i genhedlaeth trwy gyfrwng y traddodiad llafar. Gall yr ysgolhaig ddadansoddi nodweddion cerddoriaeth deunydd *o Gymru*, ond roedd ystyried cerddoriaeth werin fel 'proses' yn nes at galon y mynychwyr i'r seminar hwn. Mae cynnal ac arfer y traddodiad llafar yn golygu bod gan y caneuon gymeriad deublyg – yn eiddo i'r Traddodiad ond hefyd yn gyfoethocach o gael stamp y Datgeinydd. Gall fod perygl i'r dull hwn o drosglwyddo pan roddir y deunydd rhwng cloriau llyfr. Mae rhan y datgeinydd yn un pwysig gan fod ganddo'r hawl disgwyliedig i arddel chwaeth bersonol wrth ganu'r/berfformio'r *gân*. Cofnod er hwylustod yn unig ydy copi papur o gân, alaw, cainc ac ati, gyda'r pwyslais ar y dull o berfformio a dehongli'r deunydd. Awgrymwyd mai ceidwadol yw natur pob traddodiad. Mae traddodiad yn bodoli oherwydd bod cerddorion naill ai'n perfformio /cyflwyno deunydd sy'n hannu o'r traddodiad hwnnw neu'n perfformio/cyflwyno mewn dull a gysylltir ag ef.

Lleiswyd beirniadaeth y gall cerddoriaeth werin fod mewn perygl o gael ei chadw mewn amgueddfa neu 'rewgell'. Eto i gyd, gellir beirniadu'r traddodiad Clasurol uchel-ael Ewropeaidd (Gorllewin Ewrop) yn yr un modd er nad yw'n hynny'n ofid i gynulleidfaoedd fel y cyfryw.

Casgliad

- Rhaid parchu rôl to hŷn o ddatgeiniaid a all roi 'bywyd' yn y deunydd a geir mewn llyfr. Os yw cerddoriaeth werin am ffynnu, rhaid rhoi pwyslais ar gefnogi a datblygu rhwydwaith o gynalyddion a ddatgeiniaid ynghyd â chynnig cyfleoedd i berfformwyr cerddoriaeth o'r fath i ddod ynghyd (e.e. gweithdai, cyrsiau penwythnos, sesiynau lleol, cynhadleddau). Mae angen cynyddu'r nifer ohonynt sydd ar gael ("we don't have critical mass of performers in Wales") a gall cyrff ariannu gyfrannu i'r datblygiad drwy flaenoriaethu prosiectau sy'n annog cyfranogiad. Yn ogystal â hyn, dylid rhoi ystyriaeth deg i'r telerau a gynigir i gerddorion gwerin ar yr un raddfa â cherddorion mewn meysydd eraill.

- Dylid hefyd barchu'r ffaith mai proses frau yw trosglwyddo caneuon/alawon o gerddor i gerddor a sut y mae hynny yn effeithio ar allbynau megis nifer arfaethedig y cyfranogwyr mewn prosiect, yr amser a ganiateir i'r trosglwyddo hwn ddigwydd ac yn y blaen.

Addysg

Aeth y drafodaeth am ddulliau traddodiadol o drosglwyddo caneuon ymlaen i gynnwys lle cerddoriaeth werin yn y cwriciwlwm cenedlaethol. Mae diffyg ym maes llafur y cwriciwlwm yng Nghymru o gymharu â'r

sefyllfa yn yr Alban ac yn Iwerddon. Yno, mae cerddoriaeth werin y wlad yn rhan annatod o'r cwrs TGAU. Gall myfyrwyr cerdd yr Alban ddilyn cyrsiau addysg trydyddol sy'n cynnwys cwrs gradd yn y Conservatoire Cenedlaethol (Glasgow). Ystyriwyd hyn yn un o'r meysydd allweddol ac sy'n galw am ddatblygiad aruthrol. Cynnigir cwrs ar Ethnogerddoreg sy'n cynnwys cerddoriaeth o Gymru trwy Brifysgol Cymru Bangor. Mae'n galonogol fod Coleg Cerdd Llundain wrthi'n datblygu elfen Gymreig yn rhan o'u cwrs arholidau allanol ar gerddoriaeth werin. Ond os yw cerddoriaeth werin o Gymru am gael ei derbyn ar yr un lefel â mathau eraill o gerddoriaeth, rhaid iddi fod yn elfen mewn cyrsiau cerddoriaeth o gyfnod yr Ysgol feithrin hyd at safon addysg uwch.

- Agor trafodaeth gyda CBAC ar bwysigrwydd cerddoriaeth werin mewn cyrsiau cerddoriaeth TGAU, UG ac SU

- Cefnogi athrawon bro i gyflwyno caneuon ac alawon traddodiadol o Gymru fel rhan o brofiad ac addysg ysgolion meithin a chynradd Cymru.

- Annog cyrff fel AADGOS (ACCAC gynt) (+ gweisg cyhoedd cerddoriaeth) i gynhyrchu deunydd (llyfrau, casgliadau) o gerddoriaeth frodorol Cymru at ddefnydd athrawon ac arweinwyr grwpiau meithrin yng Nghymru.

- Cynnig cefnogaeth i gwmnïau recordio yng Nghymru i gynhyrchu casgliadau o gerdd *frodorol yn y Gymraeg ac yn Saesneg. (*D.S. rhaid cofio bod traddodiad canu gwerin yn Saesneg ar gael yng Nghymru yn ogystal ag yn y Gymraeg).

- Cymell Awdurdodau Lleol i gefnogi swyddi athrawon offerynnol traddodiadol/gwerinol yn ogystal â rhai sy'n arbenigwyr ym maes cerddoriaeth Ewropeaidd.

- Annog ardaloedd llai Cymreig yng Nghymru i gynnal gweithgaredd perfformio/cyflwyno cerdd werin ac yn hyn o beth, ddylanwadu ar ddealltwriaeth y boblogaeth o'r maes.

Mae lle cerddoriaeth fel rhan o hanes gwlad yn bwnc diddorol a rhoddwyd enghraifft o'r modd y bu cerddoriaeth werin yn gyfrwng gwrthryfelgar yn Hwngari wrth herio'r Undeb Sofietaidd yn y 50'au. Mae enghreifftiau mwy diweddar megis yng Ngweriniaeth Iwerddon yn ystod y 50'au ac yn fwy diweddar, ac efallai am resymau mwy masnachol, ar ddiwedd yr 20fed ganrif.

Gwleidyddiaeth

Teimlai llawer yn y seminar bod lle i gerddoriaeth werin yn y Gymru sydd ohoni. Daw hyn yn sgil yr awydd i ddiffinio hunaniaeth a adlewyrchir mewn datblygiadau llywodraethol a chorfforaethol diweddar. Mynegwyd teimladau cryf parthed swyddogaeth addysg gwriciwlaidd mewn datblygiad o'r fath.

"Meddyliwr tymor-byr yw pob gwleidydd" meddai un cyfrannwr ond cytunwyd ei bod hi'n hollbwysig i gynnwys gwleidyddion yn y gwaith o ddatblygu'r maes. Gellid gweld cynnydd yn y maes gwerin fel modd o adlewyrchu cynnydd yn hunaniaeth Cymru yn sgil sefydlu'r Cynulliad. Cyfeiriwyd at benderfyniad/diweddar iawn y Cynulliad Cenedlaethol yn yr Alban i glustnodi £20m ar gyfer Perfformio Cerddoriaeth ymysg plant a phobl ifanc yr Alban – ac effaith cadarnhaol cefnogaeth o'r fath ar gerddoriaeth werin/draddodiadol y rhan hon o'r DU – oni ddylid cael cronfa debyg yng Nghymru?

Diwylliant Ieuenctid

Mae dyfodol pob math o ddiwylliant yn dibynnu ar bobl ifanc ac mae arnyn nhw eisiau cerddoriaeth y mwyafrifoedd. Mae hyn, wrth reswm, wedi newid dros yr oesoedd. Roc a phop yw'r diwylliant mwyaf poblogaidd ymhlith yr ifanc ar hyn o bryd ond teimlai'r seminar y gallai cerddoriaeth werin gynnig rhywbeth amgenach iddyn nhw neu i gyfran ohonyn nhw sy'n hwyl ac yn beth *cool* i fod yn rhan ohoni. Nid oes gan y byd gwerin yr adnoddau ariannol na'r adnoddau dynol i gystadlu gyda maes cerdd bop/roc – oni bai fod cyrff fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn dod i'r adwy ac yn darparu'r gefnogaeth angenrheidiol.

Yn ogystal â chyflwyno pobl ifanc i gerddoriaeth werin drwy'r ysgol, rhaid darparu profiad iddyn nhw drwy weithgareddau allgwriciwlaidd/cymdeithasol. Yn hynny o beth, mae swyddogaeth gan glybiau gwerin a chlybiau ieuenctid y Ffermwyr Ifanc a'r Urdd ymysg eraill yn holl bwysig. Mae'r strwythur sydd eisoes yn bodoli yn yr Urdd (gwersylloedd, canghennau lleol a chenedlaethol, rhwydwaith sirol, rhanbarthol ag ati, ac eisteddfodau) yn ddelfrydol ar gyfer datblygu maes cerddoriaeth werin yng Nghymru. Dylid ennyn mwy o gydweithio rhwng trac, Clera, Gwyliau Gwerin a'r Urdd (yn benodol).

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd wedi cyfrannu llawer at ehangu profiad cerddorol pobl o bob oedran ond ni fu'r berthynas rhyngddynt a cherddoriaeth werin yn un glos nac o'r herwydd yn un broffidiol i'r cyfrwng. Mae Eisteddfod Ryngwladol Llangollen wedi ennyn ei lle fel prifwyl sy'n dathlu diwylliant rhyngwladol gyda cherddoriaeth werin (gan gynnwys cystadlaethau gwerin Celtaidd) yn rhan ohono. Ers tro byd bellach gwelwyd diffyg dealltwriaeth sylfaenol ymysg trefnyddion yr Eisteddfodau Cenedlaethol (yr Urdd a'r Brifwyl) o'r hyn a olygir wrth gerddoriaeth werin, yn ei wir ystyr. Mae angen addysgu a chenhadu ymysg cefnogwyr a chyfarwyddwyr y prif wyliau yng Nghymru a'u hannog i sefydlu cystadlaethau gwerinol go iawn yn ogystal â'r (neu yn hytrach na'r) cystadlaethau ffug-werinol presennol.

Casgliad: Mae gofyn am well dealltwriaeth rhwng y sector a rhwydweithiau pobl ifanc gyda'r bwriad o gynnig gweithgareddau sy'n annog cyfranogaeth yn y maes a llwyfannau i ddatgeiniaid boed hynny mewn cystadlaethau neu ar lwyfannau arddangos.

Proffil

Bu cryn drafod ar agweddau o recordio a darlledu gan sylweddoli ei bod yn angenrheidiol i gerddoriaeth werin godi ei phroffil yn y cyfryngau os yw am ffynnu. Er i Paul Flynn o Gyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon ddatgan bod cryno ddisgiau wedi lladd arddulliau rhanbarthol yn Iwerddon, cadarnhaodd fod gwerthiant recordiadau wedi rhoi hwb sylweddol i lwyddiant cerddorion gwerin. Mae recordiadau'n fodd o greu incwm i gerddorion trwy ddarllediadau radio ac yn enwedig ar y we lle mae twf sylweddol yn y canrannau o gynulleidfaoedd i fathau eraill o gerddoriaeth. Mae'r we'n cynnig dull rhad o ledaenu ymwybyddiaeth o gerddoriaeth a rhaid i gerddorion gwerin fanteisio arni.

Mae gwyliau cerdd a gwerin yn benodol yn fodd o godi proffil yn llygad y cyhoedd. Gwelir cam cyffrous yn cael ei gymeryd fis Ionawr pan fydd gŵyl Celtic Connections (Glasgow) yn rhaglenni artistiaid o Gymru am y tro cyntaf yn ei hanes. Mae Gŵyl Ryng-Geltaidd yn Llydaw hefyd yn gyrchfan i artistiaid o Gymru ac yn enghraifft o weithgaredd rhyngwladol sy'n debygol o ddenu sylw darlledwyr. Mae Sesiwn Fawr Dolgellau yn wyl o'r fath y dylai cerddorion gwerin sicrhau eu presenoldeb fwyfwy.

Tystiodd David Francis bod cerddoriaeth werin yn creu incwm o lawer o filiynnau o bunnoedd yn yr Alban, serch hynny, erys anhawster rhag cael ei ystyried o ddifri yn y sector economaidd. Mynegodd hefyd pa mor genfigennus y mae cerddorion yr Alban o'r sylw a roddir i'r maes ar RTE yn Iwerddon ac eglurodd hefyd pam nad yw'r wasg Albanaidd yn rhoi sylw i'r Gŵyl Ryng-Geltaidd. Yn ymateb i hyn i gyd, bu'n rhaid i Scottish Arts Council gymryd sylw o'r hyn oedd yn digwydd ar lawr gwlad wrth i fudiadau gwerin roi eu gwahaniaethau o'r neilltu ac i uno i greu ymgyrch gyhyrog.

Mynegwyd barn fod diffyg hyder yn gyffredinol ymhlith y Cymry mewn unrhyw beth cynhenid. Pwysleisiwyd y ffaith mai o lawr gwlad y daeth y gofyn am welliannau i'r sector gwerin yn yr Alban ac mai felly hefyd y bydd hi arnom yng Nghymru. Mi fyddai'r sector gwerin yn ddrwgdybus o unrhyw argymhelliad a ddeuai oddi wrth CCC oni fyddai'n adlewyrchu dymuniadau'r sector. Mae hyn yn cadarnhau'r rheswm dros gynnal y seminar hwn.

Cytuno ond ni ddylai hyn fod yn esgusodi CCC rhag gwneud dim i gefnogi byd cerddoriaeth werin yng Nghymru. Dylai CCC fod yn:

- neilltuo swm penodol o arian (yn flynyddol) ar gyfer gweithgaredd ym maes cerdd werin Cymru.

- yn hysbysebu'r ffynhonnell ariannol honno ac yn gwahodd ceisiadau (o bob ardal yng Nghymru) am nawdd.

- yn sefydlu cystadleuaeth flynyddol (proffil uchel) ym maes canu gwerin a pherfformio offerynnau mewn arddull werinol.

- yn cefnogi mentrau recordio (CDiau) ac yn y blaen er mwyn poblogeiddio cerdd werin yng Nghymru.

- yn cefnogi gwneuthurwyr offerynnau traddodiadol ac yn y blaen.

Crynhoad: Mae sicrhau sylw yn y wasg a'r cyfryngau'n dibynnu ar berthynas rhwng cerddorion a golygyddion a chynhyrchwyr. Mae'n angenrheidiol i gerddorion a chyrff gwerin weithredu fel asiantiaid i'r maes ac i fod yn ddolen gyswllt rhyngddynt a golygyddion, darlledwyr a chynulleidfa hen a newydd.

Marchnata

Mae marchnata llwyddiannus yn hanfodol i lwyddiant cerddoriaeth werin fel ag y mae i bob math o gerddoriaeth. Dydy creu'r *critical mass* o ddatgeiniaid y soniwyd amdano yn ystod y seminar ddim yn ddigon. Mae marchnata'n dechrau gyda lobio cyrff cenedlaethol megis yn y modd yr anfonwyd Datganiad Gregynog (atodiad) at bob aelod o'r Cynulliad. Ar yr un pryd rhaid marchnata i'r cyhoedd gan fod *critical mass* cynulleidfaoedd yn ffactor aruthrol bwysig.

Cytunwyd y dylai CCC benodi swyddog Gwerin neu un sydd â chanddo gyfrifoldebau dros y maes er mwyn codi ymwybyddiaeth ar bob lefel. Awgrymodd David Francis y camau canlynol ar batrwm yr hyn a ddigwyddodd yn yr Alban:

1 Creu grŵp llywio
2 Creu strategaeth
3 Penodi swyddog
4 Creu prosiectau ar lawr gwlad

Datgelwyd i'r seminar bod CCC eisoes wedi ailgynnau'r gwaith o weithio tuag at lunio Strategaeth Cerdd i Gymru. Byddai strategaeth o'r fath yn cynnwys pob genre cerddorol a byddai grwpiau llywio arbenigol, ond da o beth fyddai cael un ar gyfer maes cerdd werin cyn gynted ag y bo modd yn gyfrifol am lunio'r camau gweithredu sy'n berthnasol i'w sector hwy.

Cadeirydd:

Beti George (BBC)

Mynychwyr:

Gary Northeast (Clwb Alawon Dolanog)
Nikki Morgan (Celfyddydau Rhyngwladol Cymru)
Paul Flynn (Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon)
David Francis (Fforwm Cerddoriaeth Draddodiadol Yr Alban)
Antony Owen Hicks (Cyngor Celfyddydau Cymru)
Arfon Gwilym (Clera/Cwmni Gwynn)
Robin Huw Bowen (Y Delyn Deires Gymreig)
Gwyn L Williams (Eisteddfod Ryngwladol Llangollen)
David Petersen (Festival International Lorient & I3C)
Stephen P Rees (Prifysgol Cymru Bangor)
Neil Browning (Cerddor)
Tony Skeggs (Cyswllt Celf, Llanfyllin)
Blanche Rowen (trac)
Meg Browning (trac)
Nia Llywelyn (Tŷ Siamas)
Mabon ap Gwynfor (Tŷ Siamas)
Iestyn ap Rhobert (Telynau Teifi)
Rhian Bebb (Clera/Tant)
Gwenan Gibbard (SAIN)
Gwyn Edwards (UNESCO-Cymru)
Kate Browning (Cerddor)

Yn bresennol (CCC, Swyddfa Gogledd Cymru):

Einion Dafydd, Uwch Swyddog Datblygu'r Celfyddydau, Cerdd (CCC)
Sian Tomos, Cyfarwyddwr (CCC)
Rhian Haf, Swyddog Datblygu'r Celfyddydau (CCC)
Ruth Gilford, Gweinyddwraig (CCC)

Y Celfyddydau Traddodiadol yn yr Alban

David Francis, Scottish Traditional Music Forum

Yn un o'i ddyddiaduron dywedodd Eugene Delacroix, yr arlunydd Ffrengig o'r 19eg ganrif, mai 'esgus' yn unig oedd ei luniau, pont rhwng meddwl yr arlunydd a meddwl y sawl sy'n edrych ar y llun. Roedd wedi gosod ei fys ar yr elfennau sy'n sail i bob celfyddyd: artist, gwaith a chynulleidfa, heb anghofio'r 'gofod rhwng pob un' fel y'i galwyd gan y ffisegwr David Peat. Nid yw o bwys a ydym yn siarad am gerflun Groegaidd neu siarc Damien Hurst, am Dylan Thomas neu Beethoven – meddyliwch am y geiriau enwog uwchben ei *Missa Solemnis,* 'Von Herzen - möge es zu Herzen gehen'. Yr allwedd yw'r cysylltiad rhwng yr artist, ei waith a'i gynulleidfa.

Nid yw cerddoriaeth draddodiadol – na chelfyddydau traddodiadol – yn eithriad. Fe glywir adlais o eiriau Beethoven yng ngeiriau'r canwr a'r chwedleuwr Stanley Robertson, o dras y crwydriaid Albanaidd, pan ddywed "adroddir y stori lygad wrth lygad, meddwl wrth feddwl a chalon wrth galon." Rwyf am ddefnyddio'r agwedd driphlyg yna – artist, gwaith a chynulleidfa i esbonio'n fras beth sydd gennyf mewn golwg wrth i mi sôn am gerddoriaeth draddodiadol yng nghyd-destun y cyfarfod yma heddiw. Rwyf am ddefnyddio'r term i gyfeirio nid yn unig at synau a dirgryniadau o fath arbennig. I mi mae cerddoriaeth draddodiadol yn golygu datblygiad, addysg a hyfforddiant yr artist yn ei gyfanrwydd; y gwaith a'i argaeledd mewn amrywiaeth o ffurfiau y gellir eu storio – wedi eu hargraffu, eu recordio ac yn ddigidol, ac wrth gwrs, ei argaeledd ar y pryd drwy berfformiad; sut y caiff y gwaith ei farchnata i gynulleidfa; a sut y caiff ymwybyddiaeth, gwybodaeth a chwaeth y gynulleidfa hon eu datblygu.

Wrth sôn hybu, hyrwyddo a chefnogi cerddoriaeth draddodiadol rydym fel arfer yn cyfeirio at unrhyw un neu bob un o'r agweddau hyn o'r drindod arlunydd-gwaith-cynulleidfa.

Bydd unrhyw un a wrandawodd ar ffurf baled draddodiadol yn gwybod fod cryn arwyddocad i'r ffigwr tri. Mae pob sialens yn cael ei gosod fesul tri, caiff arwyr a chariadon dri chyfle, ac yn y blaen. Rwy'n gyndyn o ymyrryd â'r drindod y cyfeiriais ati, ond rwy'n teimlo, er i mi ddweud fod y tri yn ymwneud â phob celfyddyd, gan gynnwys cerddoriaeth draddodiadol, fod cerddoriaeth, a'r celfyddydau traddodiadol yn gyffredinol, yn hawlio un agwedd arall. Yn wir gellid ei ystyried yn fwy nag agwedd arall, ond fel cyd-destun cynhwysfawr. **Cymuned** yw hwnnw. Mae'n amlwg mai ei darddiad cymunedol sy'n dylanwadu ar natur cerddoriaeth draddodiadol – ffurf ar gelfyddyd a nodweddir yn bennaf gan ddehongliad ac ail-sylweddoliad, ail-wampio ac ail-weithio deunydd a gafodd ei greu yn y lle cyntaf efallai gannoedd o flynyddoedd yn ôl gan bobl, yn unigol neu ar y cyd, na wyddom eu henwau bellach. Mae'r gymuned dros gyfnod o amser wedi rhoi siâp ar yr union ddeunydd y mae pob cenhedlaeth yn dod ato. Yn y gymuned, ac ar ei chyfer, y mae'r rhan fwyaf o gerddorion traddodiadol yn cael eu profiad cyntaf o berfformio: yn y ceilidh, y neuadd ddawns, y clwb accordion neu'r sesiwn ar ddiwedd y cwrs. Mae'n gategori sy'n cynnwys 'cynulleidfa', ac eto yn mynd y tu hwnt i hynny – i gategori, os mynnwch, yr oedd cymdeithasegwyr y 19eg ganrif yn ei alw'n *Das Volk* – y werin bobl. Mae artist traddodiadol nid yn unig yn annerch ac yn creu cyswllt gyda'i gynulleidfa fel unigolyn, ond hefyd yn eu helpu nhw i gysylltu â'i gilydd, gan gadarnhau, dathlu ac adnewyddu cwlwm gyda gorffennol sy'n gyffredin iddynt i gyd. Caiff y gwaith ei rannu nid yn unig gyda'r gymuned mewn perfformiad, ond hefyd yn ei wreiddiau, wrth ei ddiogelu ar gyfer y dyfodol, ac wrth ei drosglwyddo i'r presennol.

A derbyn fod y gymuned, fel y teulu (un o gerrig sylfaen cymdeithas) hefyd yn ffactor bwysig mewn cerddoriaeth draddodiadol, mae'n gryn ddirgelwch pam fod y gerddoriaeth hon wedi cael ei gwthio i'r cyrion, yn enwedig yn y ganrif ddiwethaf. Fodd bynnag, fe ddigwyddodd dau beth anffodus i gerddoriaeth draddodiadol. Cafodd ei wthio o'r neilltu fel ffurf ar gerlfyddyd gan y bobl hynny a oedd wrthi'n hyrwyddo Celfyddyd (gydag 'C' fawr: meddyliwch am y cyfansoddwr Delius yn dweud yn goeglyd wrth ei gyfeillion fod chwarae alaw werin yn iawn yn ei le, ond ar ôl ei chwarae unwaith, doedd dim byd i'w wneud wedyn ond ei chwarae eto, ond yn uwch yr ail waith). Roedd Pobl Celfyddyd yn cael anhawster i dderbyn i'w byd nhw - byd sy'n rhoi cymaint o fri ar y syniad o athrylith unigol ac artist proffesiynol hunan-ddibynnol - ffurf ar gelfyddyd sydd ar y cyfan yn ddi-enw ac yn anodd ei hoelio o ran gwreiddiau a pherchnogaeth.

Cafodd ei ddanfon i'r cyrion fel ffurf o gelfyddyd boblogaidd hefyd, nid gan gynlluniau drygionus darlledwyr difater a chwmnïau recordio, ond gan newid mewn chwaeth gyhoeddus yn sgil ymddangosiad radio a gramoffon ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Yn eironig, fe symudodd y chwaeth gyhoeddus honno at gerddoriaeth, er ei bod i bob golwg yn newydd ac yn egsotig, oedd â'i gwreiddiau mewn ffurfiau gwerin a thraddodiadol – cerddoriaeth swing o ganu 'blues', canu poblogaidd America â'i wreiddiau strwythurol a harmonig mewn ffurfiau Iddewig a Dwyrain Ewrop, sef cychwyniadau *rock and roll*, y gymysgedd gyffrous honno o *rhythm and blues* y bobl dduon a chanu gwlad a cherddoriaeth *old time* y bobl wynion: pob un o'r ffurfiau hynny, yn ddiddorol iawn, wedi cael eu datblygu gan bobl a oedd eu hunain ar gyrion cymdeithas oherwydd eu hil neu eu lliw, eu lleoliad daearyddol neu yn newydd-ddyfodiaid i wlad newydd.

Gellid dadlau fod cerddoriaeth Yr Alban wedi ei symud i'r cyrion oherwydd fod yr union gymunedau oedd yn ei gynnal ar y cyrion eu hunain: y Gaeliaid, y crwydriaid, siaradwyr Albaneg yr iseldiroedd, eto o ganlyniad i ddaearyddiaeth, diwylliant a iaith nad oedd yn cyflawni anghenion diwylliant byd eang yn seiliedig ar gyfalaf yn hytrach nag ar y gymuned. Ac eto, sôn yr ydym am gerddoriaeth a wthiwyd i'r cyrion, ond na chafodd ei dileu yn llwyr. Mae chwaeth gyhoeddus yn beth mor gymhleth, ac fe arweiniodd y chwaeth hwnnw, a'r grymoedd sy'n ei greu, at ymchwydd mawr ym mhoblogrwydd cerddoriaeth dawns Albanaidd yn y 50au, caneuon gwerin yn y siartiau pop yn y 60au, ail-greu cerddoriaeth werin Brydeinig gyda gwedd roc Americanaidd yn y 60au a'r 70au hwyr, a neuaddau llawn gartref a thramor yn yr 80au ar gyfer artistiaid fel y Corries, Silly Wizard a Runrig.

Ar ddechrau'r 80au y bu'r digwyddiad pwysicaf o ran cefnogaeth gyhoeddus i gerddoriaeth draddodiadol. Fe alwyd grŵp ynghyd gan Gyngor Celfyddydau yr Alban, o bosibl ar gefn y don fechan gyntaf yn y llanw newydd o newid mewn agweddau o fewn sefydliadau celfyddydol yng Ngwledydd Prydain, i edrych ar sefyllfa cerddoriaeth draddodiadol yn Yr Alban. Fe gyhoeddodd y grŵp hwnnw, oedd yn cynnwys yr arbenigwr llên gwerin Hamish Henderson a'r ffidlwr Aly Bain, adroddiad ym 1984 a roddodd gydnabyddiaeth am y tro cyntaf yn hanes y Cyngor i rywbeth sylfaenol a esgeuluswyd ym mywyd diwylliannol Yr Alban. Mae'n debyg ei bod yn ddiogel dweud fod y darn hwnnw o waith wedi helpu i agor y drws ar yr hyn a ddilynodd yn y 90au, pan ddechreuodd Cyngor Celfyddydau'r Alban (CCA) symud ymlaen o ddifri i gefnogi cerddoriaeth draddodiadol.

I ddechrau, fe ymddangosodd cerddoriaeth draddodiadol a chelfyddydau traddodiadol yn Siarter Celfyddydau CCA ym 1993, y tro cyntaf mewn dogfen strategaeth gan Gyngor Celfyddydau. Tua'r un pryd, cynhaliwyd y gynhadledd a fyddai'n arwain at sefydlu Ymddiriedolaeth Draddodiadau Dawns Yr Alban, eto o dan adain CCA, a chychwynwyd ar y broses hir o ymgynghori ar themâu addysg, gwybodaeth ac eiriolaeth ar gyfer cerddoriaeth draddodiadol, yn gyntaf gan Matthew Rooke, math gwahanol iawn o gyfarwyddwr cerdd, a'i olynydd Nod Knowles, sydd os rhywbeth wedi bod yn fwy dyfal yn ei awydd i lefelu'r maes chwarae yn y gêm fawr o rannu'r arian. Fe arweiniodd y broses ymgynghori honno at adroddiad sylweddol a gyhoeddwyd gan CAA ym 1999, oedd yn cynnig gweledigaeth bendant o'r Alban fel gwlad lle mae gwerth cerddoriaeth draddodiadol yn cael ei gydnabod, ac yn cael ei gefnogi, ei gynnal a'i ddatblygu ym mhrif ffrwd bywyd artistig a chymdeithasol y wlad.

Fyddwn i ddim am i chi gael y syniad, fodd bynnag, fod pob cynnydd wedi digwydd oherwydd haelioni swyddogol. Un edefyn yw cefnogaeth CCA o blith patrwm cymhleth a gaiff ei wau yn bennaf gan unigolion a chymunedau ymroddedig ledled Yr Alban. Heb yr unigolion a'r cymunedau hynny, ni fyddai dim i'w hyrwyddo a dim i'w ariannu. Fe welwyd ffrwydriad o weithgarwch yn y deng mlynedd ddiwethaf yn arbennig. Mae'n bosib iawn, fel yr awgrymodd y ffidlwr Alasdair Fraser, y byddwn yn edrych yn ôl ar y 90au fel dechrau Oes Aur newydd i gerddoriaeth draddodiadol Yr Alban. Gadewch i ni gael golwg sydyn ar rai o'r llwyddiannau, pob un yn dangos gweithgarwch cyd-ddibynnol unigolion a mudiadau egnïol ac arianwyr ymroddedig.

Os trown ni i ddechrau at addysg, beth am fynd yn ôl eto at y drindod a awgrymais ar y dechrau, ac edrych ar ddatblygiad cerddor unigol. Mae addysg gerddoriaeth draddodiadol yn ymwneud â phroses ddi-dor o ddefnyddiau sy'n codi o'r datblygiad hwnnw. Yn un pen y broses mae'n rhaid i ni adnabod unigolion talentog a'u helpu i ymestyn ac ehangu eu talent, a rhoi'r cyfle iddynt weithio ar eu dychymyg, eu dawn gerddorol, eu clust, a'u paratoi nhw ar gyfer y byd masnachol, llwybr carregog yr artist, os mai dyna y maent am ei wneud. Ceir cydnabyddiaeth hefyd y bydd yr un cerddorion am ymuno ag eraill i gydnabod perthynas a chyfrifoldeb yr artist traddodiadol i'w gymuned (ein pedwaredd agwedd, fel y cofiwch). Felly mae rhan o'r addysg gerddorol draddodiadol yn ymwneud â datblygu sgiliau cerddorol mewn unigolion a fydd yn defnyddio'r sgiliau hynny i helpu eu cymuned: mewn cyfarfodydd cymdeithasol, i chwarae ar gyfer dawnsio, gwau cerddoriaeth i mewn i wneuthuriad bywyd cymunedol: cadarnhau, dathlu ac adnewyddu.

Waeth pa mor dalentog yw'r cerddor, waeth ym mha ffordd y defnyddir y dalent honno, mae angen i'w

addysg a'i hyfforddiant gynnwys elfen gref o grefft: disgyblaeth a thechneg, ac i gynnal hynny gwybodaeth am y *repertoire*, hanes y gerddoriaeth a'i gyd-destun diwylliannol. At hynny, pa mor fawr bynnag yw'r dalent, mae addysg cerddoriaeth draddodiadol yn cynnig perspectif unigryw ar brofiad creadigrwydd a chydweithrediad yn ogystal ag effeithiau llesol cydnabyddedig chwarae cerddoriaeth – yn newrolegol a seicolegol . Hanfodol bwysig hefyd yw'r ffaith ei fod yn cynnig ffordd o ddatblygu hunan-hyder, i osod eu hunain o fewn eu diwylliant, o feithrin teimlad o le – pob un yn ffactorau allweddol, o'u casglu ynghyd, i ddatblygu cymunedau llwyddiannus

Yr agwedd allweddol arall ar addysg cerddoriaeth draddodiadol, yn ychwanegol at ei gyfraniad at ddatblygiad artistig a chymunedol, yw ei swyddogaeth mewn datblygu cynulleidfa ar gyfer y gerddoriaeth. Sut fedrwch chi ddatblygu cynulleidfa? Hoffwn awgrymu mai'r cam cyntaf yw meithrin eu blas at rai profiadau penodol. Gwaith cerddoriaeth draddodiadol – y celfyddydau traddodiadol – mewn ysgolion yn bennaf yw helpu i greu blas at y gerddoriaeth. Mae'n rhaid i ni roi i'r plant yr hyn y mae ganddynt hawl iddo p'run bynnag. (Gallem feddwl yma am y cerddor, casglwr, cyhoeddwr a'r sylwedydd ar gerddoriaeth Wyddelig, Brendan Breathnach, y gofynwyd iddo gyfiawnhau ei waith. Ei ateb oedd: 'mae yna un rheswm pendant pam y dylem wybod am ein cerddoriaeth ein hunain: ein cerddoriaeth ni ydyw.') Os oes gan gynulleidfa flas wedi'i ddatblygu, ymwybyddiaeth a gwybodaeth o'r hyn a gynigir, mae'r gynulleidfa honno ar gael, mewn termau masnachol, ac o ganlyniad yn dir ffrwythlon ar gyfer gweithgareddau marchnata.

Felly yn y deng mlynedd ddiwethaf fe welsom lu o ddatblygiadau, rhai yn dilyn un neu ddwy o'r edeuon hyn, a rhai sy'n ceisio dilyn pob un ar unwaith. Mewn addysg ffurfiol fe welwn o fewn y 'Standard Grade Music' (sy'n cyfateb yn yr Alban i TGAU) fod modiwl gorfodol ar gerddoriaeth Yr Alban; mae gennym bellach Ganolfan Ardderchowgrwydd benodol yn Ysgol Uwchradd Plockton; fe all myfyrwyr mewn ysgolion cerdd arbenigol megis yr uned yn Ysgol Uwchradd Broughton yng Nghaeredin, astudio cerddoriaeth draddodiadol fel dewis cyntaf, heb gyfaddawd; fe all myfyrwyr fynd ymlaen i astudio cerddoriaeth draddodiadol ar lefel drydyddol, diolch i waith ymroddedig Mark Sheridan yn Ystrad Clud a Jo Millar yn RSAMD; mae dewisiadau cerddoriaeth draddodiadol ar gael yn HND yn Sabhal Mor Ostaig, y Coleg Gaeleg yn Skye ac mewn colegau trydyddol eraill ym mhob rhan o'r wlad.

Mewn addysg anffurfiol bu twf y mudiad *feis* – sy'n creu'r cysylltiad rhwng yr artist traddodiadol unigol a'r gymuned y cyfeiriais ato eisoes – yn syfrdanol. Gwneir cysylltiad pendant rhwng yr iaith Aeleg a cherddoriaeth, a bellach mae miloedd o bobl ifanc o'r Ucheldiroedd a'r dinasoedd hynny gyda chymunedau Gaeleg, yn rhan o'r mudiad. Fe'i mabwysiadwyd fel model y tu allan i'r *Gaidhealtachd*, yn enwedig yn y Gororau, yng Nghaeredin ac yn swydd Aberdeen. Allan o Brosiect Dysgu Oedolion Caeredin fe dyfodd Grŵp Cerddoriaeth yr Alban, a dyfodd yn fwy na'i riant yn gyflym iawn – y llynedd fe gofrestrwyd tua 500 o fyfyrwyr yn y dosbarthiadau nos. Unwaith eto, fe efelychwyd y model hwn gan Weithdy Ffidil Glasgow gyda nifer tebyg o fyfyrwyr, yn Kennoway yn Fife, a chan *Scottish Culture and Traditions* yn Aberdeen, pob un ohonynt yn cynnwys cannoedd o bobl yn eu rhaglenni. Dros yr haf fe all oedolion a phobl ifanc fynychu ysgolion haf sy'n darparu ar gyfer pob lefel gallu yn *Sabhal Mor Ostaig*, Ceolas, yr ysgol o fewn Prifysgol Stirling, a mannau eraill. A pheidiwn ag anghofio *Blazin in Beauly*, y digwyddiad dysgu a chymdeithasu dros wythnos sy'n troi o gwmpas talentau unigol a chyfunol y band Blazin Fiddles.

Hyd yn hyn mae'r athrawon ar gyfer y digwyddiadau hyn wedi dod o blith cerddorion sydd wrthi yn y maes, a'u profiad o ddysgu yn amrywio o un i un, ond mae trafodaethau bellach ar y gweill drwy'r Rhwydwaith Hyfforddi Tiwtoriaid Cerddoriaeth Draddodiadol, menter arall a ddaeth allan o adroddiad 1999, i wella ansawdd hyfforddiant ac asesu. Cafodd tystysgrif bellach ei chreu o dan adain Awdurdod Cymwysterau Yr Alban, symudiad yr oedd rhai yn ddrwgdybus ohono ar y dechrau, ond a dderbyniwyd bellach ac a fabwysiadwyd gan y mudiad *feis* yn arbennig.

Os trown yn awr i edrych ar *waith* cerddorion a pha mor hawdd yw cael gafael arno, mae'r darlun eto yn un iach. Fe aed yn ôl at y deunydd gwreiddiol, ac mae mwy a mwy yn dod ar gael drwy brosiectau megis y *North East Folklore Archive*, prosiect PEARL y *School of Scottish Studies* sy'n dechrau dosbarthu cyfoeth archifol yr Ysgol ar hyd ac ar led, prosiect *Tobar nan Dualchais* (Ffynnon Etifeddiaeth) a fydd yn y pen draw yn digideiddio a dosbarthu'r deunydd Gaeleg a gasglwyd dros lawer blwyddyn gan John Lorne Campbell o Canna, a defnyddiau Gaeleg ac Albanaidd eraill sydd gan y BBC a'r *School of Scottish Studies*.

Mae nifer fawr o gwmnïau recordio yn cyhoeddi deunydd newydd yn ogystal â deunydd o'r gorffennol. Mae gan y mwyaf o'r rhain, Greentrax, gatalog sydd i bob pwrpas yn ddarlun cryno o weithgarwch cerddoriaeth draddodiadol yn Yr Alban dros y pymtheg mlynedd ddiwethaf. Maent yn gwerthu ar hyd a lled y byd, a gellir canfod gwerthwyr arbenigol mewn trefi a dinasoedd yn yr Alban ac ar y we.

Mae casgliadau o gerddoriaeth bellach mewn print na fu ar gael ond mewn llyfrgelloedd am genedlaethau.

Fe all ffidlwyr a phibyddion gael gafael ar destunau lled chwedlonol megis Casgliad Patrick MacDonald, neu Gasgliad Athole, tra bod casgliadau o ddeunyddiau newydd yn dal i hedfan o'r gweisg. Mae'r broses werin wedi cyflymu gymaint oherwydd yr holl weithgarwch a'r deunydd ychwanegol hwn fel bod rhai alawon a gyfansoddwyd yn yr ugain mlynedd diwethaf – dwi'n meddwl am alawon megis 'Spootiskerry' Ian Burns a 'Hut on Staffin Island' Phil Cunningham – eisoes wedi eu sefydlu fel rhai safonol.

Yn y byd canu byw, llwyddiant diamheuol y deng mlynedd diwethaf fu'r Celtic Connections, yr ŵyl aeaf enfawr sydd wedi tyfu i fod yn ŵyl o bwys ar lefel ryngwladol. Pe baech yn ychwanegu trosiant Celtic Connections at yr holl weithgareddau masnachol gan gynnwys gigs byw, a chynnwys ffioedd cyrsiau, ffioedd tiwtoriaid a gwario gweinyddol a chyflogau, byddai gennych ddiwydiant cerddoriaeth draddodiadol sy'n werth miliynau o bunnau o ran ei effaith economaidd. Darllenais yn y papur y dydd o'r blaen fod trosiant y Ganolfan Bibau yn unig yn agos at £1 miliwn. Ar y cyrion? Go brin!

Caiff yr holl weithgarwch hwn ei gefnogi gan is-adeiledd sy'n datblygu: gwell ariannu; swyddogion datblygu celfyddydau traddodiadol mewn llywodraeth leol; mudiadau cenedlaethol megis y rhwydwaith, y Fforwm Cerddoriaeth Draddodiadol, y *Traditional Music and Song Association* a sefydlwyd ers tro, Ymddiriedolaeth Traddodiadau Dawns Yr Alban, y Ganolfan Bibau, Canolfan Chwedleua Yr Alban; lefel o ddarlledu ar radio gan y BBC yr ydym weithiau yn cwyno yn ei gylch, ond sydd ar y cyfan yn foddhaol, er fod Teledu yn cael ei warchod gan fleiddiaid a dreigiau a phob math o rwystrau dirgel nad ydym wedi llwyddo i'w goresgyn; menter gerddoriaeth draddodiadol mewn twristiaeth; Swyddog Cerddoriaeth yn CAA gyda chyfrifoldeb penodol am gerddoriaeth draddodiadol. Ar ddechrau Rhagfyr bob blwyddyn mae gennym ein seremoni wobrwyo ein hunain hyd yn oed.

Diolch i waith caled a gweledigaeth nifer fawr o bobl dros y blynyddoedd, rydym wedi symud ymlaen yn sylweddol yn y gwaith o osod sylfaen i ddatblygiad y celfyddydau traddodiadol yn Yr Alban. Un llecyn niwlog yw maes cyfleoedd perfformio a datblygiad cynulleidfa. Mae taer angen strategaeth sy'n cynnwys cynulleidfaoedd, canolfannau, hyrwyddwyr, asiantwyr, cwmnïau recordio, darlledwyr, gwneuthurwyr ffilmiau. Ond strategaeth yw honno ar gyfer datblygiad cerddoriaeth fyw sydd o angenrheidrwydd yn mynd ymhellach na cherddoriaeth draddodiadol yn unig.

Mae'r holl ddatblygiadau hyn yn ein cyfeirio at agwedd newydd tuag at ariannu y bydd raid o bosib i CCA a Senedd Yr Alban fynd i'r afael ag ef yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd angen i ni, er mwyn cynnig y math iawn o gefnogaeth i'r math hwn o gerddoriaeth gynhenid, wahaniaethu rhwng y Celfyddydau Albanaidd (gwaith newydd a brodorol a gynhyrchir gan drigolion Yr Alban, o ba wlad bynnag y daethant yn y lle cyntaf) a'r Celfyddydau yn Yr Alban, sef cynhyrchu a marchnata'r canon, y gwaith rhyngwladol a metropolitan gyda'i sail ariannol enfawr, megis Gŵyl Ryngwladol Caeredin ac Opera'r Alban. Mae'r Senedd wedi symud peth o'r ffordd i wneud y gwahaniaeth hwn drwy ariannu'r cwmnïau cenedlaethol yn uniongyrchol, ond amser a ddengys a fydd hyn yn rhyddhau mwy o arian i *Creative Scotland* ar gyfer cerddoriaeth draddodiadol.

Fe soniais yn gynharach am weledigaeth: y celfyddydau traddodiadol yn cael eu lle ym mhrif ffrwd bywyd artistig a chymdeithasol y genedl. Wel, y cwestiwn sy'n dilyn o hynny yw 'Pa fath o fywyd artistig a chymdeithasol ydyn ni am fod yn rhan ohono?' Mae datblygiad cerddoriaeth draddodiadol a'r celfyddydau traddodiadol yn rhan annatod o'n hymateb i'r cwestiwn hwnnw.

David Francis, Beti George a Paul Flynn yn gwrando ar y drafod

Amser coffi - o'r chwith i'r dde: Iestyn ap Robert, Antony Owen-Hicks, Neil Browning, David Petersen, Gary Northeast, Mabon ap Gwyndaf, Gwenan Gibbard

Y Celfyddydau Traddodiadol yng Ngogledd Iwerddon

Paul Flynn, Swyddog Celfyddydau Traddodiadol, Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon

Bu gan Gyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon Swyddog Celfyddydau Traddodiadol penodedig ers dros 25 mlynedd – ef oedd y Cyngor Celfyddydau cyntaf drwy Brydain i wneud hyn. Tra bo meysydd celfyddydol eraill megis drama, dawns a chelf gweledol i raddau yn cynnwys elfennau cyffredin drwy'r byd, mae celfyddydau traddodiadol unrhyw wlad yn unigryw o fewn diwylliant y wlad honno ac yn cyfleu teimlad o hunaniaeth a pherthynas â lle arbennig. Mae Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon yn arwain y ffordd ym maes celfyddydau traddodiadol.

Gwariant ar y celfyddydau

	04/05	*05/06*
Cyngor Celfyddydau Lloegr	£410,400,000	£410,455,000
Cyngor Celfyddydau'r Alban	£47,396,000	£54,270,000
Cyngor Celfyddydau Cymru	£23,203,000	£26,000,000
Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon	£11,050,000	£10,780,000
An Chomairle Ealaíonn (Gweriniaeth Iwerddon)	£37,155,200	£42,004,500

Gwariant per capita ar y celfyddydau (refeniw)

	04/05	*05/06*
Cyngor Celfyddydau Lloegr	£8.23	£8.19
Cyngor Celfyddydau'r Alban	£9.37	£10.69
Cyngor Celfyddydau Cymru	£7.95	£8.80
Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon	£6.49	£6.33
An Chomairle Ealaíonn (Gweriniaeth Iwerddon)	£9.49	£10.72

ASOP (Refeniw) Celfyddydau Traddodiadol 2001 - 2005

2001	£240,000
2002	£245,000
2003	£232,500
2004	£259,000
2005	£274,000

Canfyddiadau Cymharol - Gwariant ASOP 2001-2005

	2001/02	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Llenyddiaeth	208,000	195,585	331,200	417,048	331,413
Gweledol	514,500	479,000	688,000	720,818	586,332
Celfyddydau Cymunedol	978,500	1,334,300	1,038,750	1,088,100	1,164,600
Dawns	27,500	35,000	70,000	78,000	69,000
Drama	1,709,900	1,797,100	1,732,300	1,721,950	1,836,290
Datblygu	296,500	308,200	279,000	297,000	-
Iechyd/Anabledd Gwirfoddol	-	-	-	-	283,990
Cerddoriaeth	1,575,000	1,680,500	2,025,000	2,112,700	2,287,921
Arall	-	-	315,300	346,500	335,000
Traddodiadol	240,000	245,000	232,500	259,000	274,000
Ieuenctid	82,000	82,000	457,700	413,000	484,269

Arian ASOP i'r Celfyddydau Traddodiadol 2005

8 grant £274,000

- 5 Ysgol Gerdd Draddodiadol £171,000
- 2 Fudiad Albanaidd/ Albanaidd Wyddelig £38,000
- 1 Athro Teithiol £65,000

MAP Ariannu'r Celfyddydau Traddodiadol 2005

3 Gwobr £170,000

- Yr Archif Cerddoriaeth Draddodiadol £60,000
- Yr Wyl Gelfyddydau Traddodiadol Ty Agored £55,000
- 'All Set' £55,000

Celfyddydau Traddodiadol: Loteri 2005-2006

3 Gwobr Hygyrchedd	£112,744
1 Gwobr LAP	£7,200
'Awards for All'	£90,888

Celfyddydau Traddodiadol – Cynllun Offerynau Cerdd i Fandiau

1995 – 1997	106 o gynlluniau £1.4 m
2002 – 2004	123 o gynlluniau £1,756,833
2004 – 2005	13 o gynlluniau £242,813
2005 – 2006	£150,000 i gael ei rannu

Celfyddydau Traddodiadol – Grantiau i Artistiaid Unigol 2005/06

16 o grantiau £19,300

- 10 Grant Teithio £5,300
- 6 Grant Celfyddydau Cyffredinol £14,000

Celfyddydau Traddodiadol: Cronfa Datblygu'r Celfyddydau 2004/05

- DVD Addysgiadol £20,000

Cronfa Proffil Rhyngwladol 2005/06

- CD-Rom Hyrwyddo £15,000
- Ymweliad Cynrychiolwyr Rhyngwladol £10,000

06/07 Prosiect Archif £10,000 (clustnodwyd)

Celfyddydau Traddodiadol a Chelfyddydau Gweledol 2005

- ASOP/MAP 2005 11 grant £429,000
- ASOP/MAP 2005 22 grant £747,906

- Lottery 2005 4 grant £119,744
- Lottery 2005 15 grant £366,000

- SIAP 2005 16 grant £19,300
- SIAP 2005 103 grant £218,387

Cwestiynau posibl:

- Addysg
- Cefnogi'r artist unigol
- Adeiladwaith
- Hyrwyddo a Marchnata
- Proffil Rhyngwladol

Clustnodwyd ar gyfer y Celfyddydau Traddodiadol 2003/04

Blwyddyn Ariannol Ebrill 2003 – Ebrill 2004 (mewn Punnoedd)
Grantiau Ariannol

- Cyfanswm yr arian a dderbyniwyd gan Gyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon yw £7,378,116
  - Rhaglenni Celfyddydau Traddodiadol **£220,492**
  - Cefnogi Rhaglen Artistiaid Unigol (Celfyddydau Traddodiadol) **£27,700**
  - Cyfanswm refeniw Celfyddydau Traddodiadol **£248,192**
- Grantiau Loteri
  - Cyfanswm **£8,923,488**
  - Celfyddydau Traddodiadol (Loteri) **£220,429**
  - Mae'r Loteri yn cynnwys y Rhaglen 'Awards for All' am geisiadau hyd at £5,000 - **£178,141**
  - Cyfanswm Celfyddydau Traddodiadol (Loteri) **£398,570**
- Cronfa Ddatblygu'r Celfyddydau

Cyfanswm a dderbyniwyd **£417,851**
Celfyddydau Traddodiadol **£25,000**

Dyranwyd i'r Celfyddydau Traddodiadol 2003/04
Felly, hyd y gwelaf i

- Cyfanswm yr arian a ddyranwyd gan Gyngor Celf. Gogledd Iwerddon ym mlwyddyn ariannol 03/04 oedd £16,719,455
- Dyraniad y Celfyddydau Traddodiadol yn ystod yr un cyfnod oedd £919,952
- Roedd y Celfyddydau Traddodiadol yn cyfrif am 5.5% o'r holl arian a ddyranwyd ym mlwyddyn ariannol Ebrill 03 – Ebrill 04

Mae Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon hefyd yn rhedeg Cynllun Offerynnau Cerdd i Fandiau sy'n cynnwys bandiau gorymdeithio (yn cynnwys ffliwtiau, pibau ac acordion). Yn 2003-2004 fe neilltuodd y Cyngor **£484,762** i'r cynllun hwn

Os yw'r sector bandiau gorymdaith yn cael ei ystyried yn rhan o'r Celfyddydau Traddodiadol yna mae'r ffigwr yn dod i **£1,404,714 (8.4%)**

Polisi Celfyddydau Traddodiadol 2006

Fe sefydlodd Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon weithgor yn 2006 yn cynnwys cynrychiolwyr o Ogledd Iwerddon yn ogystal â'r Weriniaeth i ystyried anghenion polisi Celfyddydau Traddodiadol.

Nodiadau wrth lunio polisi

- Cwestiwn deuol addysg ffurfiol ac anffurfiol a sut i'w cynnwys yn y polisi
- Cyd-destun yr anawsterau ariannu presennol ac effaith bosibl hynny ar y polisi dros y cyfnod pum mlynedd, e.e. pryder fod gwasanaethau cerdd mewn ysgolion yn dueddol o gael eu torri yn sgil anawsterau ariannol ym myd addysg lleol a byrddau llyfrgelloedd
- Arian a chefnogaeth i gerddorion traddodiadol llawn amser sy'n gweithio mewn addysg – i alluogi unigolion i ddysgu a chyflawni cerddoriaeth draddodiadol drwy gynllun 'artist preswyl' er enghraifft
- Hygyrchedd ac argaeledd y celfyddydau traddodiadol – gwelir y celfyddydau traddodiadol fel ffurf gelfyddyd boblogaidd a hynod o hygyrch
- Yr elw a ddaw o'r Celfyddydau Traddodiadol wrth gefnogi meysydd megis twristiaeth ddiwylliannol ac adfywio economaidd

- Materion ariannu a'r angen i annog mwy o geisiadau ariannol i Gyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon gan y sector – e.e. seminarau gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd ariannu, cefnogaeth Cyngor y Celfyddydau i ddatblygu hyfforddiant sgiliau i fudiadau ac unigolion. Nodwyd nad oedd arian y Cyngor Celfyddydau i'r sector wedi cael ei gapio ar y lefel bresennol, ond yn hytrach wedi ei ddiffinio yn ôl y galw
- Adeiladu a chryfhau partneriaethau gyda chyrff eraill (Byrddau Addysg a Llyfrgelleodd, Adran Addysg, Adran Iechyd, An Chomhairle Ealaíon er enghraifft) i ddatblygu'r sector ac i hwylsuo mwy o weithredu ar y cyd
- Hyrwyddo'r secor yn broactif – posibilrwydd mynd â sioe yn cynnwys cerddorion ar daith i hyrwyddo'r sector, annog gwybodaeth ehangach drwy gyfryngau hyrwyddo megis y DVD 'Exploring Trad', cyllideb ariannu benodol ar gyfer elfen gelfyddydau traddodiadol y gwyliau celfyddydol cyffredinol.
- Yr angen ar y funud i ddatblygu ac annog canu – cryfhau'r cysylltiad gydag Iwerddon gyda phwyslais Gwyddelig/Gaeleg er enghraifft
- Cwestiwn denu cynulleidfaoedd ac argaeledd canolfannau ar gyfer y sector – fe nodwyd fod rhestrau cylchlythyru yn allweddol wrth dargedu cynulleidfa ar gyfer y celfyddydau traddodiadol . Un datblygiad posibl oedd cais consortiwm gan y sector yn canolbwyntio ar farchnata a chynyddu niferoedd cynulleidfa ar gyfer y celfyddydau traddodiadol.

Meysydd Blaenoriaeth (Drafft)

1 Adeiladwaith (Thema Un ii)
Cefnogi costau craidd a rhaglennu y mudiadau hynny sy'n gweithio i wella hygyrchedd y celfyddydau traddodiadol yng Ngogledd Iwerddon – gan gynnwys mentrau teithio a thraws-ddiwylliannol, rhaglenni addysgiadol, gwyliau cymunedol a digwyddiadau.

2 Partneriaethau (Thema Un ii, Thema Dau)
Annog perthynas newydd rhwng mudiadau sydd ar y funud yn hyrwyddo'r celfyddydau traddodiadol a dal ati i gefnogi'r cydweithio sy'n bod ar hyn o bryd.

3 Artistiaid Cefnogol (Thema Un i)
Codi ymwybyddiaeth o'r ffynonellau cyllid sydd ar gael ymysg mudiadau ac unigolion ac archwilio gyda'r sector bosibiliadau am deithiau dyfeisgar.

4 Proffil (Thema Tri)
Codi proffil ymarferwyr a mudiadau'r celfyddydau traddodiadol o fewn yr amgylchfyd lleol ac yn rhyngwladol, a helpu i feithrin cysylltiadau agosach rhwng gwyliau celfyddydau traddodiadol a digwyddiadau.

5 Addysg (Thema Dau)
Annog mentrau i gynhyrchu adnoddau ar gyfer y sector addysg ffurfiol.

Amcanion Drafft

- Datblygu dulliau dyfeisgar o ddod a cherddoriaeth, cân a dawns at gynulleidfaoedd newydd, a chadw ac ehangu'r cynulleidfaoedd presennol (Blaenoriaeth 1, **Thema Un ii**)
- Codi proffesiynoldeb y celfyddydau traddodiadol drwy hyrwyddo mentora, rhwydweithio a mathau eraill o ddatblygu proffesiynol (Blaenoriaeth 3, **Thema Un i**)
- Annog mwy o gydweithio, cyfnewid a phartneriaethau rhwng artistiaid traddodiadol a grwpiau a mudiadau. (Blaenoriaeth 2, **Thema Un ii**, **Thema Dau**)
- Ceisio ennyn diddordeb yn y clefyddydau traddodiadol o fewn y sector addysg ffurfiol. (Blaenoriaeth 5, **Thema Dau**)
- Datblygu bwrsariau addysgol ar gyfer cerddorion, cantorion a dawnswyr traddodiadol a chreu cynlluniau cerddorion preswyl mewn ysgolion. (Blaenoriaeth 5, **Thema Dau**)
- Sicrhau fod celfyddydau traddodiadol Gogledd Iwerddon yn cael eu gweld yng Ngogledd Iwerddon ac yn rhyngwladol (Blaenoriaeth 4, **Thema Tri**)

Cerddoriaeth Draddodiadol & Cherddoriaeth Werin: ei Natur a'i Feithrin

Nodiadau o gyfarfod trac, Hydref 2006, gan Siân Thomas, Cyfarwyddydd trac

Er mwyn paratoi ar gyfer cyfarfod Seminar Cerddoriaeth Draddodiadol CCC, galwodd trac cyfarfod ei Banel Ymgynghorol ar 21 Hydref 2006 i ddisgrifio'n profiad o gerddoriaeth draddodiadol a gwerinol.

Yn bresennol oedd:

aelodau Bwrdd a staff trac
Siân Thomas (Cyfarwydydd)
Danny KilBride (Cadeirydd)
Rhiain Bebb (Ymddiriodolydd)
Annette Davies (Ymddiriodolydd)
Gwenan Gibbard (Sylwedydd)
Blanche Rowen (Gweinyddydd)

Panel Ymgynghorol a gwesteion
Gary Northeast (Clwb Alawon Dolanog)
Ruth Exell Stevenson (Gwyl Pontardawe)
David Hammond-Williams (Gwyl Pontardawe)
Iestyn ap Robert (Telynau Teifi)
Martin Davies (cyfieithydd)

1. Gwerthoedd craidd:

Pan fyddwn yn trafod cerddoriaeth draddodiadol a cherddoriaeth werin,cyfeiriwn at y gerddoriaeth ei hun, a nid at y strwythurau sydd *efallai'n* rhan o'r traddodiad Cymreig a sydd *efallai'n* cysylltu â'r gerddoriaeth hon mewn rhai o'u gweithgareddau. Mae esiamplau o'r rhain yn cynnwys eisteddfodau a chorau. Er eu bod yn chwarae rôl bwysig mewn rhai agweddau o *fynediad at* y gerddoriaeth, ni ddylent *ddiffinio'r* gerddoriaeth.

Mae'n bosib y gellid ystyried y canlynol fel rhai o nodweddion sylfaenol cerddoriaeth 'draddodiadol' a cherddoriaeth 'werin':

1.i. trosglwyddiad **llafar/ ar y glust** os yn bosibl
1.ii. yn y lle cyntaf, mae **afiaith** yn bwysicach na ragoriaeth
1.iii. **'y broses werin':** nid ydym am weld 'ail-greu hanesyddol'; gellid dadlau taw cerddoriaeth draddodiadol yw'r gerddoriaeth mwyaf cyfoes, gan ei bod yn gyson addasu ei hun i'r perfformiwr ac i'r amgylchiadau. Yn ogystal, mae'r broses yn addasu cerddoriaeth *o'r tu allan* ac yn ei *fabwysiadu* a'i gynnwys yn y traddodiad Cymreig.
1.iv. **cyd-destun cymdeithasol clir**, adeiladu cyfalaf cymdeithasol mewn cymunedau.
1.v. **rhyng-genedliadol,** gan ei bod hi'n gerddoriaeth y gellir ei rhannu ar draws yr holl ystod oedran.
1.vi. **dilysrwydd:** mae'n bwysig ein bod ni'n deall ac yn cynnal gwreiddiau cymdeithasol a hanesyddol y gerddoriaeth er mwyn 'deall' y grefft, fel y gallwn adeiladu arni a chynnal ei pherthnasedd yn ei lleoliad a'i chyfnod.
1.vii. ei **ddycnwch**

2. 'Celfyddyd' neu 'Ddiwylliant'?

Mae'n bwysig, yn nermau'r ffordd y mae'n gallu mynd ymlaen i ffurfio partneriaethau, sut mae'r sector yn mynd ati i ddisgrifio'r hyn y mae'n ei wneud. Gall y gerddoriaeth hon ddal ei thir ym myd y *Celfyddydau,* a dylai bobl broffesiynol y Celfyddydau a'r Cyfryngau ei ddeall yn well a'i defnyddio'n amlach er mwyn creu Menter Werthu Gymreig Unigryw. Trosglwyddir y cyd-destun cymdeithasol drwy gyfrwng *Diwylliant*, felly dylai cerddoriaeth draddodiadol/werin gael ei hystyried yn adnodd gwerthfawr fel rhan o raglenni datblygiad personol neu gymunedol.

Byddai buddsoddi mewn cerddoriaeth draddodiadol/werin yn cael yr effaith fwyaf pe bai'n ffocysu ar *fynediad*; mynediad at berfformiadau gan artistiaid o safon, ac at gyfleoedd i gyfranogi.

2.i. **Cyllid**

2.i.a. **Celfyddydau:** Ar hyn o bryd mae'r cyllid yn deillio gan amlaf o Gyngor y Celfyddydau ac o'r Loteri Gelf. Yn y dyfodol, efallai bydd blaenoriaethau cyllido'r Celfyddydau, o ffynonnellau cyhoeddus a phreifat,yn golygu y bydd cerddoriaeth draddodiadol/werin yn gorfod cystadlu am gyllid mewn ffordd annheg.

2.i.b. **Cyllido Treftadaeth:** Nid yw'r Loteri Dreftadaeth yng Nghymru'n ymateb yn dda i gerddoriaeth neu dreftadaeth annirnad. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa'n wahanol iawn yn Lloegr, gyda phrosiectau megis y *Northumbria Anthology* yn derbyn buddsoddiad helaeth o'r gronfa.

2.i.c. **Cyllido cymdeithasol:** Mae llawer o gyfle i ddefnyddio cerddoriaeth draddodiadol/werin wrth fynd ati i hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol, menter cymunedol, ayyb. ond mae gweithwyr yn y meusydd hyn yn tueddi i ddod o hyd i'w gweithgareddau celf oddiwrth ystod fechan o ddarparwyr. Byddai gwell ymgynghori rhwng asiantaethau creu Newid Cymdeithasol a chymuned y Celfyddydau yn gyffredinol yn gwella cynnwys ac effeithiolrwydd y rhaglenni hyn.

2.i.d. Byddai rhai yn cynnig bod '**dim cyllid'** yn opsiwn, gan fod cymhorthdal yn newid natur 'traddodiad', a'i droi'n nwydd. Y realiti yw bod rhaid i gerddoriaeth draddodiadol/werin gynnal proffil mewn cystadleuaeth â diwydiant cerddoriaeth byd-eang sy'n cael ei ariannu'n ddigonol. Os oes gwerth mewn 'Naws am le' – naill ai am resymau cydlynu cymdeithasol neu ddatblygu economaidd – dylai cerddoriaeth frodorol gael ei hystyried yn rhan o hyn, a'i chyllido o'r herwydd.

3. Mynediad

3.i. **Cymryd rhan:** Gallwn rhestri'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn cerddoriaeth draddodiadaol a gwerin yng Nghymru fel a ganlyn:

3.i.a. **ffurfiol:** corau, cystadleuaethau, bandiau, grwpiau ayyb.

3.i.b. **anffurfiol:** sesiynau a chyfarfodydd eraill

O ystyried y gwerthoedd craidd (uchod), gwelwn fod y system bresennol yn un anghytbwys. Mae pwysleisio'r 'ffurfiol' ac yn aml yr 'academig' yn arallu'r rheini a fyddai'n ymateb yn well i brosesau eraill. Hefyd, cydnabyddir bod y System Drwyddedu newydd yn milwrio yn erbyn y rhai sydd am gyfranogi at gerddoriaeth yn achlysurol neu mewn ffordd anffurfiol. Dylid archwilio'r posibilrwydd bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn mynd ati i sefydlu fframwaith a fydd yn gwneud cyfranogi anffurfiol yn gyfreithlon unwaith eto, gan ystyried bod ganddynt bwerau deddfu newydd erbyn hyn.

3.ii. **addysg – hyfforddiant:** Mae'r fframwaith dysgu/addysgu'n rhwystr mawr i ddatblygiad cerddoriaeth draddodiadol/werin; nid yw Cymru wedi datblygu strwythurau cadarn i drosglwyddo cerddoriaeth frodorol.

3.ii.a. Dylai addysg gerddorol, o'r blynyddoedd cynharaf, gynnwys cerddoriaeth draddodiadol a gwerin. Mae'n cynnig 'tir cyffredin' i blant, eu cyfoedion a bobl hŷn, ac mae'n hawdd i'w gael. Pan fydd yn cael ei ddysgu yn ei gyd-destun cymdeithasol, mae'n arf y gellir ei ddefnyddio wrth ddysgu ystod o bynciau gan gynnwys cerddoriaeth, hanes, ieithoedd ayyb.

3.ii.b. Er bod achredu yn broblematig, rydym yn cydnabod y gallai system raddio – wedi'i chynllunio o'r tu mewn i'r system draddodiadol yn hytrach na wedi'i haddasu o'r sector cerddoriaeth gelf – fod yn fuddiol. Mae'r trafodaethau a gafwyd gyda Choleg Cerdd Llundain wedi adnabod rhai syniadau y gellid eu datblygu'n bellach.

3.ii.c. Mae na le i ddadlau y dylai bobl sydd â diddordeb mewn dehongli treftadaeth,gofal iechyd, twristiaeth, addysg, ayyb. yn ogystal â pherfformwyr sydd am ddilyn gyrfa ym myd adloniant, dderbyn hyfforddiant galwedigaethol.

3.ii.d. Mae angen hyfforddi darparwyr gwasanaeth sy'n gweithio yn y meusydd uchod. Yn aml, nid yw swyddogion yr asiantaethau cyfrifol yn arbenigwyr ym myd Celf neu chwaith yn hyddysg yn y diwylliant brodorol.

3.iii. **cyfleoedd**

3.iii.a. Amatur - Proffesiynol

· Mae'r categorïau amatur a phroffesiynol yn wrth-gynhyrchiol mewn nifer o feysydd ym myd y Celfyddydau, ac yn arbennig felly ym maes cerddoriaeth draddodiadol/werin. Ar lefel sylfaenol, rhaid i gerddoriaeth draddodiadol a gwerin gadw cyswllt agos â'i chymuned; wrth i'r gerddoriaeth droi'n fwy masnachol ac i fod yn fwy o nwydd, mae'n fwy-fwy 'ymbellhau'.

Dylai cerddorion traddodiadol a gwerin sy'n ceisio ychwanegu at eu hincwm wrth ddysgu, perfformio,

dehongli ayyb. gael eu hasesu ar sail ansawdd y profiad y mae nhw'n gallu cynnig, a nid ar sail eu statws treth incwm.

3.iii.b. Datblygu'r economi: Wrth fuddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn cerddoriaeth draddodiadol/werin, bydd potensial i ddatblygu'r diwydiant Creadigol yn cael ei greu, er enghraifft:

- gwneud offerynnau
- cyfryngau
- teithio (byw)
- twristiaeth

4. Canfyddiadau

Mae'r rheini sy'n cymryd rhan mewn cerddoriaeth draddodiadol/werin yn teimlo bod canfyddiadau presennol – gan addysgwyr, darlledwyr, deddfwyr ayyb. – yn rhwystr.

4.i. Rhaid i'r sector gerddoriaeth draddodiadol/werin fynd i'r afael â'r cyhuddiad bod y gerddoriaeth yn 'boring', a'r rhesymau dros hyn.

4.i.a. A ydy'r gors-bwyslais ar gystadlu, rhagoriaeth a strwythur ffurfiol yn rhwystro unigolion rhag cyfranogi ar lefel anffurfiol/achlysurol ; a fyddai hyn yn arwain at ganlyniadau llawn mor werthfawr o safbwyntiau cymdeithasol ac economaidd?

4.i.b. A ydy cystadlu a pherfformio (ar lwyfan) yn homogeneiddio'r gerddoriaeth i'r fath raddau fel y mae'n ddi-liw ac yn ddiffygiol mewn egni o gymharu â mathau eraill o gerddoriaeth?

4.i.c. Ai hyrwyddwyr cerddoriaeth mwy masnachol sy'n gyfrifol am roi'r epithed 'boring' i gerddoriaeth draddodiadol/werin? Ar lefel sylfaenol, nid oes angen cadwyn hir gwerth-ychwanegol sy'n cynhyrchu elw ar y math yma o gerddoriaeth, ac efallai felly nid yw'n ennyn diddordeb hyrwyddwyr masnachol.

4.ii. Dylai'r gymuned draddodiadol/werin annog y canfyddiad taw cerddoriaeth gymunedol, frodorol Gymreig yw'r gerddoriaeth hon ar y lefel mwyaf sylfaenol. Os all yr agwedd hon gael ei hyrwyddo a'i phoblogeiddio unwaith eto – yn y tafarnau, mewn cymdeithasau, ar y 'terasau' ayyb. – cawn afael ar arf a fydd yn cynnig achos cyffredin i bawb, beth bynnag eu hoedran, dosbarth neu dras ethnig ayyb.

5. Argymhellion

5.i. Bydd argymhellion yn cael eu drafftio yn dilyn Cynhadledd Cyngor y Celfyddydau ar 24 Tachwedd 2006